Trosolwg a Chraffu

Adroddiad Blynyddol 2017-18

Rhagair

Croeso i Adroddiad Craffu Blynyddol Cyngor Sir Penfro sy'n tynnu sylw at waith pob un o'n pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2017-18.

Mae gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol o broses ddemocrataidd y Cyngor ac mae pob un o'r pum Pwyllgor – Gwasanaethau, Corfforaethol, Polisi a Chyn-penderfynu, Partneriaethau ac Ysgolion a Dysgu – wedi cyflawni swyddogaeth yn herio ac yn cefnogi penderfynwyr dros y 12 mis a aeth heibio fel rhan o gyfrifoldeb deuol i alw'r Weithrediaeth i gyfrif ac i weithredu fel 'cyfaill beirniadol'.

Mae Cadeiryddion Craffu yn y gorffennol wedi ysgrifennu adroddiadau ar wahân ar weithgarwch eu Pwyllgorau dros y flwyddyn, ac felly mae'r adroddiad cyfunol hwn yn gweld agwedd newydd tuag at ddogfennu'r gwaith gwerthfawr sydd wedi cael ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf yn ogystal â thynnu sylw at yr heriau sydd o'n blaenau. Mae'n dangos y cyfrifoldeb yr ydym yn ei rannu fel Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i barhau i gydweithio i gryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy gyflawni gwaith craffu gyda gwerth ychwanegol ac ymrwymiad cyffredin i ganolbwyntio ar y materion sy'n cyfrif fwyaf i drigolion Sir Benfro yn awr ac yn y dyfodol.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Aelodau Trosolwg a Chraffu a swyddogion o dîm cynorthwyo Partneriaeth a Chraffu am eu cefnogaeth a'u gwaith cyson dros y flwyddyn a aeth heibio.

Y Cynghorydd Brian Hall
Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

Y Cynghorydd David Bryan
Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau

Y Cynghorydd Guy Woodham
Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bolisi a chyn-penderfynu

Y Cynghorydd John Davies
Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ysgolion a Dysgu

Y Cynghorydd Rob Summons
Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Wasanaethau

Cynnwys

1. Trosolwg a Chraffu yn Sir Benfro 3

2. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol 4

3. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau 8

4. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bolisi a Chyn-penderfynu 12

5. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ysgolion a Dysgu 15

6. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Wasanaethau 19

7. Edrych ymlaen i 2018-19 22

8. Cymryd rhan 23

9. Cysylltwch â ni 24

1. Trosolwg a Chraffu yn Sir Benfro

Mae Trosolwg a Chraffu yn gydran allweddol o lywodraethu a fframwaith democrataidd Cyngor Sir Penfro. Ei swyddogaeth yw bod o gymorth i siapio a datblygu polisi, canfod a herio tangyflawniad, cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a galw'r Weithrediaeth i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Mae'n gyffredin meddwl am graffu fel 'cyfaill beirniadol', a thrwy herio'n adeiladol a chynorthwyo mae'n ceisio rhoi sicrwydd i bobl Sir Benfro bod y penderfyniadau yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth, bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n effeithiol, a bod polisi'r Cyngor yn cael yr effaith a ddymunir.

Mae Trosolwg a Chraffu yn ofyniad deddfwriaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a gyflwynodd newidiadau mawr i'r ffordd y mae Cynghorau yn gwneud penderfyniadau. Roedd y Ddeddf yn galluogi Cynghorau i gyflwyno strwythurau gwleidyddol newydd, gan gynnwys un o fodel Arweinydd a Chabinet (y Weithrediaeth) a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Y Weithrediaeth sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â gwasanaethau, yn unol a'r polisïau a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn monitro perfformiad, cyfrannu i ddatblygu ac adolygu polisi ac ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar y Sir a'i thrigolion. Swyddogaeth arall sydd gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw cydbwyso pwerau'r Weithrediaeth, os oes angen, gan ddal y Weithrediaeth i gyfrif drwy archwilio a chwestiynu eu penderfyniadau. Yn greiddiol, mae swyddogaeth graffu yn galluogi rhai nad ydynt yn Aelodau o'r Weithrediaeth i ddylanwadu ar y ffordd y gall penderfynwyr weithio'n fwy effeithiol dros y bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am ddatblygu eu rhaglenni gwaith eu hunain ac fe'u hanogir i fabwysiadu dull wedi ei flaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae'n bwysig nodi na all Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wneud penderfyniadau; ni all ond gwneud argymhellion. Y Weithrediaeth sydd i benderfynu a yw am dderbyn neu wrthod argymhellion a wnaed gan Bwyllgor.

Ym mis Mawrth 2016, yn dilyn adolygiad gan Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol a Gwasanaethau Democrataidd ac argymhellion yn Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru o Gyngor Sir Penfro yn 2015, pleidleisiodd y Cynghorwyr i gyflwyno pump o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu newydd o fis Medi 2016 i gymryd lle'r Pwyllgorau 'thematig' blaenorol. Roedd hyn yn newid sylweddol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor a bydd cyfnod peilot y strwythur newydd yn cael ei adolygu a'i werthuso ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r pum Pwyllgor presennol yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol o fusnes y Cyngor: Corfforaethol, Partneriaethau, Polisi a Chyn-penderfynu, Ysgolion a Dysgu, a Gwasanaethau.

Rhydd yr adroddiad blynyddol hwn drosolwg ar waith pob un o'r pum Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf ac mae'n tynnu sylw at beth o'r gwaith da a deilliannau cadarnhaol a gyflawnwyd yn ogystal â nodi rhai o'r heriau y mae'r Pwyllgorau yn eu hwynebu. Yn dilyn diweddariadau'r Pwyllgorau, rydym yn cynnwys adran sy'n edrych ar feysydd sy'n dal i fod angen eu cryfhau ymhellach a rhai o'r mesurau y ceisiwn eu rhoi yn eu lle i sicrhau swyddogaeth graffu fwy effeithiol.

2. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

Swyddogaeth a chylch gorchwyl

Swyddogaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yw adolygu a chraffu ar swyddogaethau corfforaethol a gwasanaethau cefnogi ac mae ei faes yn cynnwys goruchwylio cyfeiriad strategol cyffredinol, polisïau, cynlluniau a blaenoriaethau'r Cabinet a'r Cyngor (ar ôl penderfyniadau) a monitro gweithredu'r cyfryw fel bo'n briodol.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hefyd yn cynnwys craffu ar wasanaethau cefnogi corfforaethol drwy ddatblygu dull seiliedig ar risg gan ddefnyddio gwybodaeth reoli berthnasol megis Cynlluniau Trawsnewid Gwasanaethau, mesuriadau perfformiad, risg fusnes ac arolygiad allanol/adroddiadau rheoleiddiol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:

Swyddogaethau corfforaethol:

- Swydd yr Arweinydd
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau'r Cabinet
- Y Prif Weithredwr
- Monitro'r gyllideb (yn flynyddol ac yn chwarterol)
- Monitro perfformiad corfforaethol (yn flynyddol ac yn chwarterol)
- Cynllunio corfforaethol
- Adroddiadau corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru
- Gwella gwasanaethau
- Diogelu (corfforaethol)

Gwasanaethau corfforaethol:

- Gwasanaethau Ariannol
- Technoleg Gwybodaeth
- Archwilio a Risg
- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adnoddau Dynol
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau
- Caffael
- Marchnata a Chyfathrebu
- Gwasanaethau Etholiadol

Aelodaeth

Mae aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel a ganlyn:

Y Cynghorydd Brian Hall, Cadeirydd (Annibynnol)
Y Cynghorydd David Howlett, Is-gadeirydd (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd John Cole (Dim plaid)
Y Cynghorydd Michael John (Annibynnol)

Y Cynghorydd Samuel Kurtz (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Reg Owens (Annibynnol)
Y Cynghorydd Michael Stoddart (Dim plaid)
Y Cynghorydd Alison Tudor (Llafur)
Y Cynghorydd Thomas Tudor (Llafur)
Y Cynghorydd Jacob Williams (Dim plaid)
Y Cynghorydd Michael Williams (Plaid Cymru)

Gwaith y Pwyllgor yn 2017-18

Caiff rhaglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ei phennu i raddau helaeth gan amserlen cynllunio corfforaethol ac ariannol y Cyngor, adolygiad o'r gyllideb a chanlyniadau perfformiad, a datblygu amcanion strategol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio diogelu fel mater corfforaethol.

Mehefin 2017

- Swyddogaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor a datblygu'r rhaglen waith i ddod
- Adroddiad Diogelu a Sicrhau Ansawdd Sir Benfro am Chwarter 4 2016-17
- Adroddiad Alldro'r Gyllideb 2016-17
- Amserlen Cynllunio Corfforaethol ac Ariannol 2017-18

Medi 2017

- Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol Drafft 2018-19
- Adolygu Gwelliant 2016-17 – Adroddiad Gwerthuso
- Diogelu Plant y Dewiswyd eu Haddysgu Gartref
- Cyllideb Integredig, Rheolaeth Fewnol, Rheoli Risg Busnes a Monitro Perfformiad – Chwarter 1 2017-18

Tachwedd 2017

- Diogelu Plant y Dewiswyd eu Haddysgu Gartref – Adolygu Ymarfer Plant
- Adroddiad Sicrhau Ansawdd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Chwarter 1 2017-18
- Cynllun Corfforaethol Drafft ac Amcanion Llesiant 2018-19
- Cyllideb Integredig, Rheolaeth Fewnol, Rheoli Risg Busnes a Monitro Perfformiad – Chwarter 2 2017-18

Ionawr 2018

- Cynllun Corfforaethol Drafft ac Amcanion Llesiant 2018-19
- Cyllideb Ddrafft y Cyngor Sir 2018-19
- Cyllideb Integredig, Rheolaeth Fewnol, Rheoli Risg Busnes a Monitro Perfformiad – Chwarter 3 2017-18
- Rhaglen Drawsnewid

Mawrth 2018

- Gwasanaeth Adnoddau Dynol
- Rhaglen Drawsnewid – Diweddariad ar ffrwd waith Rheoli Categorïau Caffael
- Trechu Tlodi yn Sir Benfro

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Pwyllgor wedi cymryd amser i graffu ar faterion cynllunio corfforaethol ac ariannol gan gyfrannu at gynnwys a chanolbwynt y Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Llesiant. Cododd yr aelodau fater ansawdd tai a nifer y tai oedd ar gael, ac mae'r mater hwn yn flaenoriaeth a nodwyd yn Rhaglen y Cabinet ar gyfer Gweinyddu.

Gyda'i gyfrifoldeb am ddiogelu corfforaethol, mae'r Pwyllgor wedi nodi materion a phryderon gyda golwg ar y prosesau sydd wedi eu sefydlu ar hyn o bryd ar gyfer plant y dewiswyd eu haddysgu gartref. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg ar y mater, oedd yn cynnwys cynnig i gyflwyno cofrestru mandadol. Er y derbyniwyd ymateb cadarnhaol gyda'r troad, nid yw gweithredoedd Ysgrifennydd y Cabinet hyd yn hyn wedi ymestyn i gwrdd ag uchelgais y Pwyllgor.

Cymerodd Aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn adolygu'r gwasanaeth Adnoddau Dynol a nododd y rôl allweddol y mae angen i Adnoddau Dynol ei chwarae yn Rhaglen Drawsnewid y Cyngor. Bu'r Aelodau yn ystyried yr heriau o ran capasiti mewn gwasanaethau a'r heriau o recriwtio i rai swyddogaethau penodol ac uwch. Canolbwyntiodd yr aelodau hefyd ar iechyd meddwl a'r gwaith a wnaed gan yr adran ar y fenter Amser i Newid Cymru sydd wedi ei hadnabod fel arfer gorau. Ers hynny mae Adnoddau Dynol wedi ei drosglwyddo i bortffolio yr Aelod o'r Cabinet dros Drawsnewid i gynorthwyo i gyflawni ffrwd waith Diwylliant.

Heriau i'r dyfodol

Mae alinio cynllunio corfforaethol ac ariannol ochr yn ochr â'r rhaglen drawsnewid yn her gyson i'r Pwyllgor ac mae'r Aelodau wedi mynegi pryderon ynghylch natur uchelgeisiol y cynlluniau yn erbyn realiti'r cyllidebau. Gellir gwneud mwy yn ystod y flwyddyn i fonitro perfformiad a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Llesiant.

Bydd angen talu sylw hefyd i'r aliniad rhwng yr Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi ei gynhyrchu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y mae craffu arno o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau). Dan ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gofynion statudol wedi eu gosod ar y Cyngor fel corff corfforaethol ac mae gan y Pwyllgor rôl allweddol i'w chwarae o ran darparu sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y ddeddfwriaeth bwysig hon.

Yn unol â'i gylch gorchwyl, cynhaliodd y Pwyllgor ei adolygiad cyntaf o wasanaeth corfforaethol yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth pan fu'n craffu ar waith gwasanaeth Adnoddau Dynol. Cafodd hwn dderbyniad da a bwriedir datblygu'r elfen hon o raglen waith y

Pwyllgor fel y bydd pob swyddogaeth gorfforaethol yn ymddangos o flaen y Pwyllgor dros weddill tymor y weinyddiaeth.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn falch bod y Cabinet newydd wedi mabwysiadu rôl amlwg yn y gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf ac maent wedi croesawu ac wedi bod yn agored i gael eu herio. Y gobaith a'r disgwyliad yw y bydd y berthynas rhwng craffu a'r Weithrediaeth yn parhau i gryfhau a datblygu drwy gydol 2018-19.

3. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau

Swyddogaeth a chylch gorchwyl

Swyddogaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau yw adolygu a chraffu ar weithgarwch lle mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth neu ar y cyd ag asiantaethau eraill. Dyrannwyd i'r Pwyllgor y cyfrifoldeb statudol am graffu ar weithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dyma yw prif ganolbwynt ei waith.

Yn ehangach, mae ei gwmpas yn cynnwys trosolwg ar holl drefniadau partneriaeth strategol, allweddol y Cyngor a chraffu, lle bo'n briodol, lle mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd i gyflawni neu gomisiynu gwasanaethau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol. I'r diben hwn, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymwneud â'r canlynol:

Craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Datblygu a chynhyrchu Asesiad Llesiant lleol
- Datblygu a llunio Cynllun Llesiant
- Cynllun Blynyddol y BGC
- Gweithgareddau a chynnydd y BGC wrth gyflawni ei flaenoriaethau
- Gofyn i unrhyw aelod, neu gyfranogwr a wahoddwyd gan y BGC, i fod yn bresennol a rhoi tystiolaeth (dim ond ynglŷn ag ymarfer y swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt fel Aelodau o'r BGC).

Arall:

- Partneriaethau Strategol
- Comisiynu Strategol ar y cyd
- Partneriaethau statudol (e.e. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol)

Aelodaeth

Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bartneriaethau fel a ganlyn:

Y Cynghorydd David Bryan, Cadeirydd (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Dr Simon Hancock, Is-gadeirydd (Dim plaid)
Y Cynghorydd Margot Bateman OBE (Annibynnol)
Y Cynghorydd Aden Brinn (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Joshua Beynon (Llafur)
Y Cynghorydd Vic Dennis (Llafur)
Y Cynghorydd Paul Dowson (Dim plaid)
Y Cynghorydd Stephen Joseph (Dim plaid)
Y Cynghorydd Phillip Kidney (Dim plaid)
Y Cynghorydd Myles Pepper (Annibynnol)
Y Cynghorydd Paul Rapi (Plaid Cymru)
Y Cynghorydd Kenneth Rowlands (Annibynnol)

Aelodau cyfetholedig:

Yr Uwch-arolygydd Ian John, Heddlu Dyfed-Powys
Amy Richmond, MWWFRS
Anna Bird, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwasanaeth Prawf Cymru

Gwaith y Pwyllgor yn 2017-18

Mehefin 2017

- Diweddariad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Hysbysiad o Gynnig – Sgiliau Beirniadol

Medi 2017

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda– Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda– Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Datblygu'r Cynllun Llesiant

Hydref 2017

- Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer ymgynghoriad
- Cyngor Sir Penfro yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol ar iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llesiant
- Hysbysiad o Gynnig – Sgiliau Beirniadol

Ionawr 2018

- Cyllideb Ddrafft y Cyngor Sir 2018/19 a Chynllun Ariannol Tymor Canol 2018-22
- Hysbysiad o Gynnig yn ymwneud â Chydweithredu a Rhannu Gwasanaethau gydag Awdurdodau eraill

Mawrth 2018

- Cyfeirio Hysbysiad o Gynnig gan y Cyngor – Cydweithredu a Rhannu Gwasanaethau gydag Awdurdodau eraill
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Y Cynllun Llesiant terfynol

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Prif ganolbwynt y Pwyllgor yw craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Benfro (PSB). Yn 2017-18, bu BGC Sir Benfro yn gweithio ar ei Gynllun Llesiant ac mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd drwy gydol y broses gan edrych i sicrhau bod elfennau megis natur wledig y sir a thlodi yn cael eu cydnabod yn y Cynllun. Dangosodd Cadeirydd y Pwyllgor arweinyddiaeth drwy fynychu cyfarfodydd y BGC i gryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhwng y ddau endid a sicrhau cyfathrebu amserol ac integredig. Golygodd hyn ei fod yn gallu

hysbysu Aelodau'r Pwyllgor am y broses a manylion trafodaethau'r BGC a rhoi mwy o gyd-destun i'r gwaith.

Ar ddechrau'r flwyddyn nododd y Pwyllgor ddymuniad i edrych i mewn i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol ar faterion iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llesiant a sefydlodd y Pwyllgor grŵp gorchwyl a gorffen i edrych i mewn i'r materion hyn mewn mwy o fanylder. Casglodd y grŵp gorchwyl a gorffen fewnbwn a thystiolaeth gychwynnol gan amrywiaeth o bartneriaid yn y sector gwirfoddol ac oddi wrth y canfyddiadau cychwynnol hyn gwahoddodd nifer o'r rhain i gyfarfod ag aelodau'r grŵp. Roedd y cyfarfodydd hyn yn neilltuol o effeithiol o ran deall gwaith sy'n mynd ymlaen mewn mwy o ddyfnder a manylder a chymharu a chyferbynnu modelau gwahanol o gyflawni gwasanaeth. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi nodi tair thema o'u gwaith sef cyllid, integreiddio gwasanaethau ac atal ac mae wedi gofyn am ymateb gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i roi mwy o wybodaeth ar gyfer datblygu ei waith.

Yn olaf, bu'r Pwyllgor yn cymryd diddordeb yng ngwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o gwmpas trawsnewid eu gwasanaethau. Mae Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi bod yn ddarn o waith a gafodd dderbyniad da oherwydd ymgysylltu helaeth â defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid a chyflwynwyd y gwaith ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol i'r Pwyllgor fel rhan o'i ddatblygiad cychwynnol.

Heriau i'r dyfodol

Mae'r Cynllun Llesiant wedi cael ei lofnodi gan y 4 partner statudol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Swyddogaeth y Pwyllgor fydd craffu ar y BGC a'i aelodau mewn perthynas â'r cyfraniad y mae pob un yn ei wneud, yn unigol ac ar y cyd, i gyflawni'r Cynllun. Bydd y maes hwn yn cael blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd angen mwy o archwilio ac ystyriaeth i benderfynu ar y dull craffu mwyaf priodol ar gyfer hyn, gan y gall Aelodau'r Pwyllgor ei chael yn fwy gwerthfawr ymweld â sefydliadau sy'n bartneriaid sy'n cyflawni gwaith yn ogystal â derbyn gwybodaeth fonitro a chynnydd fel rhan o gyfarfod ffurfiol y Pwyllgor. Mae modd i hyn ddatblygu yn fodel mwy gwerthfawrogol o graffu, gan edrych ar bwy sy'n gwneud beth yn dda a ble a sut yr ydym yn dysgu oddi wrth yr esiamplau hyn ac yn eu rhannu.

Mae cymhlethdod y strwythurau cyflawni rhanbarthol a llywodraethu trefniadau o'r fath mewn nifer o ardaloedd yn dal i ddod i'r amlwg. Mae Bargen Dinas Bae Abertawe a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ill dwy ar hyn o bryd yn datblygu strwythurau llywodraethu priodol ac mae'r goblygiadau i'r Cyngor a'r swyddogaeth graffu y gall y Pwyllgor ddisgwyl ei chyflawni yn dal yn aneglur. Er mwyn rhoi peth eglurder, bu'r Cabinet yn ddiweddar yn adolygu rhestr o bartneriaethau strategol allweddol yr Awdurdod a phenderfynodd y dylai'r Pwyllgor ystyried y gwaith hwn wrth lunio ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.

Bu cyfraniad yr aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor yn ddefnyddiol wrth ddatblygu craffu ar y BGC. Fodd bynnag, yn dechnegol, mae'r aelodau cyfetholedig hyn yn bresennol ar gyfer

materion yn ymwneud â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ac mae modd i'w statws fel cynrychiolwyr y BGC achosi cymhlethdodau a gwrthdaro buddiannau wrth i waith craffu ar y BGC ymsefydlu ymhellach. Mae angen gwneud rhagor o waith ar amlinellu craffu ar sefydliadau sy'n bartneriaid a gwerth aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Craffu a'u hunion swyddogaeth.

4. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bolisi a Chyn-penderfynu

Swyddogaeth a chylch gorchwyl

Swyddogaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bolisi a Chyn-penderfynu yw craffu ar bolisïau, cynlluniau a strategaethau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud er mwyn cyfrannu i ansawdd a chadernid penderfyniadau'r Cabinet. Mae cylch gorchwyl a chwmpas y Pwyllgor yn cynnwys:

- Rhaglen waith y Cabinet i'r dyfodol
- Cynigion ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau, trawsnewid a/neu arbedion effeithlonrwydd
- Asesiadau Effaith Integredig
- Strategaethau a chynlluniau, fel bo'n briodol
- Cynigion y gyllideb flynyddol

Aelodaeth

Mae aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bolisi a Chyn-penderfynu fel a ganlyn:

Y Cynghorydd Guy Woodham, Cadeirydd (Llafur)
Y Cynghorydd Josh Beynon, Is-gadeirydd (Llafur)
Y Cynghorydd Tony Baron (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Michelle Bateman (Dim plaid)
Y Cynghorydd Kevin Doolin (Dim plaid)
Y Cynghorydd Paul Dowson (Dim plaid)
Y Cynghorydd Tim Evans (Dim plaid)
Y Cynghorydd Huw George (Annibynnol)
Y Cynghorydd Stan Hudson (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Mike James (Annibynnol)
Y Cynghorydd Elwyn Morse (Annibynnol)
Y Cynghorydd Rhys Sinnett (Plaid Cymru)

Gwaith y Pwyllgor yn 2017-18

Yn y flwyddyn sydd newydd fynd heibio mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio'n bennaf ar adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff, darn mawr o waith gyda'r nod o newid yn sylweddol y ffordd o ddarparu gwasanaethau gwastraff mewn ymateb i'r heriau presennol a'r rhai a ddaw yn y dyfodol o ganlyniad i ymestyn targedau perfformiad a phwysau cyllideb llym.

Mae'r Pwyllgor hwn wedi bod yn ymwneud â'r adolygiad ers 2016 ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi parhau i gael y cyfle i siapio'r broses adolygu a'r dewisiadau sydd wrthi'n cael eu hystyried. At hynny sefydlodd y Pwyllgor Weithgor Gwastraff er mwyn sicrhau bod Aelodau yn dal i gymryd rhan, ac yn craffu, ar y gwaith manwl sydd ei angen i edrych i mewn yn drwyadl i'r dewisiadau dan ystyriaeth fel rhan o'r adolygiad ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor llawn gydag argymhellion clir, seiliedig ar dystiolaeth.

Mehefin 2017

- Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff

Hydref 2017

- Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff

Tachwedd 2017

- Adolygiad o'r Gwasanaeth Hamdden
- Cyllideb Amlinellol 18-19
- Cynllun Ariannol Amlinellol y Tymor Canol
- Strategaeth TG

Ionawr 2018

- Prosiect Trawsnewid Mynediad at Wasanaethau
- Strategaeth y Cyfryngau Cymdeithasol

Chwefror 2018

- Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff
- Premiwm Treth Gyngor ar ail gartrefi: elfen gymunedol

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Cafodd cyfraniad y Pwyllgor i Adolygiad y Gwasanaeth Gwastraff ei gydnabod gan y Cabinet a'r swyddogion fel ei gilydd, a dangosodd y gwaith hwn y gwerth y gall y Pwyllgor ei ychwanegu at y broses benderfynu drwy ei ddylanwad cadarnhaol a'i her adeiladol. Bu'r rhan a gymerodd Aelodau anweithredol mewn siapio a datblygu newid mor bwysig mewn polisi yn ddatblygiad cadarnhaol i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ac, fel y cyfryw, defnyddir y fethodoleg gobeithio fel esiampl ar gyfer swyddogaeth y Pwyllgor yn y dyfodol wrth ymgymryd â chraffu ar gynigion o bwys cyn i'r cabinet eu hystyried a phenderfynu.

Yn yr un modd, mae gan y Pwyllgor swyddogaeth bwysig i'w chwarae gyda golwg ar raglen drawsnewid y Cyngor a bydd hyn yn dal i ddatblygu wrth symud ymlaen. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi cyfrannu i ddarnau allweddol o waith cysylltiedig â'r rhaglen megis y strategaeth TG a strategaeth y Cyfryngau Cymdeithasol yn ogystal â'r prosiect Mynediad at Wasanaethau.

Fel gyda'r holl Bwyllgorau, dygwyd y dewisiadau ynglŷn â'r cynigion i gynyddu'r Dreth Gyngor gerbron y Pwyllgor yn gynnar yn 2018. Cydnabyddir bod craffu wedi chwarae rhan bwysig ym mhroses y Cyngor wrth iddo gytuno ar gynnydd radical yn lefelau'r Dreth Gyngor drwy

ymgysylltu ag Aelodau mewn trafodaeth lawn ac agored ar y dewisiadau dan ystyriaeth cyn i'r Cyngor benderfynu.

Cymerodd y Pwyllgor hefyd y cyfle i graffu ar y cynigion ynghylch dyrannu'r elfen gymunedol oedd yn codi o'r premiwm ar y Dreth Gyngor ar gyfer perchnogion ail gartrefi. Er eu bod yn cefnogi'r dewis a ffefrid, roedd yr Aelodau'n glir bod angen i'r Pwyllgor ddal ati i oruchwylio gweithrediad y cynllun a disgwylir craffu ar yr Aelod cyfrifol o'r Cabinet o ran canlyniadau cyflawni'r cynllun dros y 12 mis nesaf.

Ar nodyn ychydig yn wahanol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i geisio cael dinasyddion i gymryd mwy o ran yn y broses graffu ac i'r perwyl hwn cymerodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ran yn y sesiwn graffu fyw gyntaf ar Facebook yn hybu'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2018 lle y cafodd yr argymhellion terfynol a gododd o'r Adolygiad Gwastraff eu hystyried. Gwneir rhagor o waith yn y cyfeiriad hwn a bydd y Pwyllgor yn rhagweithiol yn y ffordd y mae'n denu dinasyddion i ymgysylltu â'i waith.

Heriau i'r dyfodol

A derbyn ei swyddogaeth cyn-penderfynu, mae angen i raglen waith y Pwyllgor fod wedi ei halinio'n llawn ag un y Cabinet fel bod digon o amser wedi ei adeiladu i fewn i'r broses benderfynu i ganiatáu i'r Pwyllgor ymgymryd â'i waith mewn ffordd wybodus ac amserol. Mae angen gwneud mwy o waith ynglŷn â hyn, yn enwedig i sicrhau bod yr amser yn cael ei roi i edrych i mewn i gynigion i'r graddau o fanylder sydd yn angenrheidiol fel bod unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yng ngoleuni'r pwysau parhaus, nid yw sefyllfa ariannol y Cyngor yn debygol o wella yn y tymor canol a bydd hyn yn parhau i gael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor a lefelau'r Dreth Gyngor. Mae gan y Pwyllgor ran allweddol i'w chwarae yn natblygiad cynigion y gyllideb cyn i'r Cabinet eu hystyried ac i'w gynorthwyo yn ei waith mae wedi sefydlu Panel Cyllid i weithio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Aelod o'r Cabinet i'w gwneud yn bosibl cyflawni'r math manwl o waith ymchwilio fydd yn galluogi'r Pwyllgor llawn i wneud argymhellion gwybodus a seiliedig ar dystiolaeth fel sy'n briodol. Mae gan y Panel Cyllid swyddogaeth allweddol i'w chyflawni dros y 6 mis nesaf tra bydd cynigion y gyllideb ar gyfer 2019-20 wrthi'n cael eu datblygu a chaiff y broses ei hadolygu a'i mireinio yn dilyn ei waith cychwynnol.

Yn olaf, dylid nodi parodrwydd Aelodau'r Cabinet i ymgysylltu'n llawn â gwaith y Pwyllgor ac mae'r berthynas gadarnhaol sy'n cael ei ffurfio rhwng Aelodau Gweithredol ac Anweithredol drwy graffu yn arwydd cadarnhaol bod trefniadau llywodraethu yn gwella o fewn y Cyngor. Mae'n hanfodol bod y berthynas rhwng y Pwyllgor a'r Cabinet yn parhau i ddatblygu dros y 12 mis nesaf er mwyn cryfhau'r broses benderfynu ymhellach yn y Cyngor.

5. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ysgolion a Dysgu

Swyddogaeth a chylch gorchwyl

Swyddogaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ysgolion a Dysgu yw adolygu a chraffu ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc, cymorth ieuenctid a gwasanaethau eraill seiliedig yn y gymuned gan gynnwys Addysg Oedolion, a chefnogi codi safonau addysgol a'r deilliannau i ddysgwyr.

Mae cylch gorchwyl a chwmpas y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- Deilliannau addysgol ar gyfer pob oed, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4
- Categoreiddio ysgolion
- Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
- Ysgolion unigol (drwy Banel Craffu ar Ysgolion)
- Gwasanaethau Cynhwysiant
- Cymorth Ieuenctid a gwasanaethau eraill seiliedig yn y gymuned
- Dysgu, sgiliau a hyfforddiant ôl-16
- Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag ysgolion a dysgu
- Diogelu mewn Addysg

Aelodaeth

Mae aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu fel a ganlyn:

Y Cynghorydd John Davies, Cadeirydd (Annibynnol)
Y Cynghorydd Steve Yelland, Is-gadeirydd (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Michelle Bateman (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Vic Dennis (Llafur)
Y Cynghorydd Paul Harries (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Stanley Hudson MBE (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Mike James (Annibynnol)
Y Cynghorydd Paul Rapi (Plaid Cymru)
Y Cynghorydd Ken Rowlands (Annibynnol)
Y Cynghorydd Mike Stoddart (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Viv Stoddart (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Alison Tudor (Llafur)

Aelodau cyfetholedig:

Y Parch Brian Douglas Witt (cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru)
Mr Paul White (cynrychiolydd yr Eglwys Babyddol)
Mr Philip Williams (cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr)
Gwag (cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr)

Gwaith y Pwyllgor yn 2017-18

Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ystod eang ac amrywiol o bynciau yn ymwneud ag ysgolion yn ystod 2017-18. Yn ogystal ag eitemau sefydlog ar Ddiogelu mewn Addysg ac ERW, mae Panel Craffu'r Cyngor wedi cynnal ymweliadau i Ysgol y Preseli ac Ysgol Portfield ac mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi edrych ar Gyllid Ysgolion. Derbyniodd y Pwyllgor un cais gan aelod o'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn, cais i graffu ar fynediad cynnar i arholiadau, ac edrychodd y Pwyllgor ar hyn ym mis Ionawr 2018. Drwy gydol y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn craffu ar y canlynol:

Mehefin 2017

- Adolygiad o broses Craffu ar Ysgolion (Panel Craffu ar Ysgolion)

Awst 2017 (cyfarfod anghyffredin)

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Darparu Addysg Ôl-16 yn Sir Benfro

Medi 2017

- Swyddogaeth Gwasanaethau Cefnogi Llywodraethwyr
- Diogelu mewn Addysg
- Perfformiad Ysgolion ar gyfer 2017 (data heb ei ddilysu)
- Cynigion y Gyllideb ar gyfer 2017-18
- Data absenoldeb staff ysgol
- Diweddariad y Panel Craffu ar Ysgolion

Tachwedd 2017

- Ymddygiad mewn ysgolion a Gwaharddiadau
- Canlyniadau Estyn a Hunanwerthusiad
- Data Perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2
- Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

Rhagfyr 2017 (cyfarfod anghyffredin)

- Archwilio'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Addysg Ôl-16 yn Sir Benfro
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl mewn Ysgolion Uwchradd
- Diogelu Plant sy'n cael eu Haddysgu Gartref

Ionawr 2018

- Cymorth ERW i Ysgolion Sir Benfro
- Data Absenoldeb Staff Ysgol
- Mynediad Cynnar i Arholiadau

Ebrill 2018

- Archwiliad o'r Nifer Dichonadwy o Ddisgyblion yn nosbarthiadau'r Chweched Dosbarth
- Canlyniadau Categoreiddio Ysgolion
- Chwythu'r chwiban mewn Ysgolion
- Adroddiadau'r Panel Craffu ar Ysgolion (Ysgol y Preseli ac Ysgol Portfield)
- Diweddariad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid Ysgolion

Ar gyfer 2018-19 bydd y Pwyllgor hefyd yn dechrau derbyn gwybodaeth ychwanegol yn ffurf gwybodaeth am berfformiad gwasanaeth a risg i wasanaethau yn yr Adran Plant ac Ysgolion. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i fireinio ymhellach y meysydd i graffu arnynt yn eu rhaglen waith am y flwyddyn i ddod.

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Mae'r Pwyllgor Ysgolion a Dysgu wedi craffu ar ystod eang ac amrywiol o ddata perfformiad yn ystod y flwyddyn ac mae gwaith ERW yn parhau i gael ei fonitro yn flynyddol. Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen Cyllid Ysgolion ddarn o waith manwl ar y cyllid sydd ar gael i ysgolion, yn enwedig yr heriau ynghylch cyllidebau ysgolion oedd yn debygol o gael eu profi dros y tair blynedd nesaf, rheolaeth ariannol mewn Ysgolion Cynradd o gymharu ag Ysgolion Uwchradd, a gwerth y cyngor ariannol a ddarperir i ysgolion gan dîm Rheolaeth Leol Ysgolion (LMS). Mae'r Pwyllgor wedi derbyn argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi eu bwriadu i gynorthwyo ysgolion i gryfhau eu rheolaeth ar eu materion ariannol.

Bydd y wybodaeth yr edrychodd y Pwyllgor arni yn gymorth iddynt ddatblygu eu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Er enghraifft, mae data categoreiddio ysgolion wedi bod o gymorth i'r Panel Craffu ar Ysgolion nodi dwy ysgol sy'n tanberfformio i ymweld â hwy yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Ymwelodd y Panel Craffu ar Ysgolion â dwy ysgol oedd yn perfformio'n dda iawn yn ystod 2017-18 ac maent yn awyddus i sicrhau bod yr arferion da, oedd yn amlwg yn yr ysgolion hyn, yn cael eu rhannu gydag ysgolion eraill ledled y Sir, nad ydynt efallai wedi cyrraedd yr un lefel o berfformiad hyd yma.

Bu gan y Pwyllgor hefyd ran bwysig i'w chwarae mewn cynorthwyo i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) rhwng yr Awdurdod Lleol a Choleg Sir Benfro ar gyfer darparu addysg Ôl-16 yn Sir Benfro. Rhan gychwynnol y Pwyllgor yn natblygiad y Memorandwm hwn oedd mewn Cyfarfod Anghyffredin ym mis Awst 2017, lle y gwnaeth argymell nifer o newidiadau i'w gwneud cyn i'r Memorandwm gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Edrychodd y Pwyllgor unwaith eto ar y Memorandwm ym mis Rhagfyr 2017, gan argymell bod swyddogion yn gwneud gwaith pellach ym mhob un o'r ysgolion uwchradd mewn cydweithrediad â staff cyllid ac addysg, er mwyn sicrhau bod data cyson yn cael ei gofnodi ar gyfer y flwyddyn hon a blynyddoedd yn y dyfodol wrth gyfrifo beth yw'r nifer dichonadwy o ddisgyblion ar gyfer lefelau A. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r cyfrifiad hwn ymhellach yn flynyddol ac mae i gynnal adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2018.

Drwy raglennu gwaith a goruchwylio canlyniadau addysgol ynghyd â data perthnasol arall, bydd y Pwyllgor yn parhau i roi sicrwydd bod yna oruchwyliaeth briodol gan Aelodau a bod perfformiad ysgolion, safonau addysgol a chanlyniadau i ddysgwyr yn dal i gael eu herio

Heriau i'r dyfodol

Yn y flwyddyn i ddod bydd y Pwyllgor yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am berfformiad gwasanaeth a risg, data canlyniadau addysgol, adroddiadau Estyn a gwybodaeth am flaenoriaethau Adrannol i ddatblygu a monitro ei raglen waith.

Yn neilltuol, mae dau faes gwaith heriol y bydd y Pwyllgor yn mynd i'r afael â hwy yn 2018-19.

Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor wedi mynegi awydd i edrych yn fanylach ar Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y flwyddyn i ddod mewn perthynas â gofynion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Gallai'r effaith, a gaiff y gofyniad i ddarparu cymorth i bobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed ar wasanaethau Addysg yn y Sir, fod yn sylweddol ac mae'n debygol y caiff grŵp gorchwyl a gorffen ei sefydlu i edrych ar y mater hwn yn fanylach.

At hynny, trefnwyd i'r Pwyllgor gynnal adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Addysg Ôl-16 o fewn y Sir a fabwysiadwyd gan yr awdurdod yn 2017.

6. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Wasanaethau

Swyddogaeth a chylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Wasanaethau yn adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'w gwsmeriaid. Er mwyn penderfynu ar ei flaenoriaethau mae'r Pwyllgor yn asesu ansawdd a pherfformiad gwasanaethau'r Cyngor gan ddefnyddio ystod o wybodaeth rheoli yn cynnwys Cynlluniau Trawsnewid Gwasanaethau, mesurau perfformiad, risgiau busnes ac archwiliad allanol / adroddiadau rheolaethol.

Yn benodol, mae cylch gorchwyl a chwmpas y Pwyllgor yn ymdrin â gwasanaethau canlynol y Cyngor (ac is-adrannau ynddynt);

- Priffyrdd ac Adeiladu
- Yr Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil
- Tai
- Cynllunio
- Eiddo
- Amddiffyn y Cyhoedd
- Adfywio
- Gwasanaethau Diwylliannol a Hamdden
- Gofal Oedolion
- Gwasanaethau Plant

Aelodaeth

Mae Aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Wasanaethau fel a ganlyn:

Y Cynghorydd Rob Summons, Cadeirydd (Ceidwadwr)
Y Cynghorydd Jonathan Preston, Is-gadeirydd (Plaid Cymru)
Y Cynghorydd Jamie Adams (Annibynnol)
Y Cynghorydd John Cole (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Tim Evans (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Brian Hall (Annibynnol)
Y Cynghorydd Dr Simon Hancock (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Stephen Joseph (Dim Plaid)
Y Cynghorydd Phillip Kidney (Dim Plaid)
Y Cynghorydd David Pugh (Annibynnol)
Y Cynghorydd Tony Wilcox (Llafur)

Gwaith y Pwyllgor yn 2017-18

Mae'r Rhaglen Waith i ddod yn offeryn pwysig i'r Pwyllgor, sy'n ei gynorthwyo i flaenoriaethu ei faich gwaith a sicrhau bod gwaith y Pwyllgor, cyn belled ag y bo modd, yn ychwanegu gwerth

i waith y Cyngor ac yn cyfrannu tuag at wasanaethau gwell gan y Cyngor i drigolion drwy gymorth a her briodol a chymesur.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi craffu ar ystod o wasanaethau a nodwyd drwy ymroi i fonitro gwybodaeth Perfformiad Gwasanaeth a gesglir yn chwarterol gan yr holl wasanaethau yn yr Awdurdod. Rhoddwyd mynediad electronig i Aelodau'r Pwyllgor at y wybodaeth hon er mwyn eu galluogi i gael mynediad at wybodaeth gyfredol y tu allan i gyfarfodydd a dwyn testunau pryder sy'n dod i'r amlwg i sylw'r Pwyllgor.

Drwy edrych ar berfformiad gwasanaethau dros nifer o fisoedd, canfu'r Pwyllgor nifer o bryderon ynghylch gwasanaethau neu feysydd gwasanaeth penodol a gofynnodd am i'r rhain gael eu dwyn gerbron y Pwyllgor, fel a ganlyn;

Mehefin 2017

- Datblygu rhaglen waith drwy nodi meysydd o danberfformiad / risg

Medi 2017

- Tai – Grantiau cyfleusterau i'r Anabl

Hydref 2017

- Gwasanaeth Eiddo
- Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd

Chwefror 2018

- Tai – Cynyddiadau yn rhenti Tai Cyngor ar gyfer 2018-19

Ebrill 2018

- Gwasanaeth Adfywio
- Gwasanaeth Eiddo (dilyniant i Hydref 2017)

Ymhellach, sefydlodd y Pwyllgor grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar faterion yn ymwneud â defnydd y Cyngor o orfodaeth sifil, ac edrychodd nifer o Aelodau yn fanylach ar y cyfleoedd ar gyfer defnyddio gorfodaeth sifil wrth ymroi i reoli troseddu amgylcheddol yn y Sir. Mae gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn cydredeg â gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn y maes hwn yn yr Awdurdod ac mae'r Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth bellach yn y cyfeiriad hwn ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig newydd.

Pa wahaniaeth wnaeth y Pwyllgor?

Gall dangos deilliannau a gwelliannau pendant o ganlyniad i graffu fod yn anodd gan y gellir gweld craffu yn well fel un offeryn ymhlith amrywiol fesurau sy'n dwyn pwysau cadarnhaol a her ac sydd, yn y pen draw, yn arwain at welliant.

Ym mis Hydref 2017, bu'r Pwyllgor yn craffu ar y Gwasanaeth Eiddo, am fod ganddo bryderon neilltuol ynghylch capasiti'r is-adran, marchnata / gwerthiant ac unedau diwydiannol gweigion ledled y Sir. Yn dilyn y sesiwn hon, gofynnodd y Pwyllgor i'r Gwasanaeth Eiddo ddychwelyd i roi diweddariad ar ei berfformiad ymhen chwe mis ac ychwanegwyd hyn at raglen waith Ebrill 2018.

Yn y diweddariad ym mis Ebrill 2018 cydnabuwyd, er bod yna broblemau yn parhau gyda chapasiti'r is-adran, bod sesiwn graffu Hydref 2017 wedi ysgogi newid ffocws o fewn y gwasanaeth i ganolbwyntio ar osodiadau newydd yn hytrach nag ar adolygiadau rhenti ac adnewyddu prydlesi. Canlyniad hyn oedd cynnydd o 7% mewn cyfraddau deiliadaeth unedau diwydiannol ar draws y Sir, yn cynnwys cyfradd ddeiliadaeth o 100% ar gyfer canol Sir Benfro.

Drwy raglennu ei waith a goruchwylio'r holl Gynlluniau Trawsnewid Gwasanaethau bydd y Pwyllgor yn parhau i gynnig sicrwydd bod yna oruchwyliaeth briodol gan Aelodau a bod perfformiad y gwasanaeth yn cael ei herio.

Heriau i'r dyfodol

Yn y flwyddyn i ddod bydd y Pwyllgor yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth berthnasol am berfformiad gwasanaeth a risg er mwyn penderfynu ar ei raglen waith a ffocws neilltuol ar wasanaethau y gwelir eu bod yn tanberfformio. Hefyd, gyda'r Rhaglen Drawsnewid yn yr Awdurdod yn prysuro ymlaen, bydd cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Wasanaethau gael cylch gorchwyl ehangach yn craffu ac yn mesur effaith y newid mewn gwasanaethau a gyflawnwyd drwy'r Rhaglen.

7. Edrych Ymlaen tuag at 2018-19

Mae'r Cyngor wedi rhoi ymdrech benodol sylweddol i mewn i wella'r swyddogaeth graffu ers rhai blynyddoedd. Er gwaethaf y gwelliannau gwirioneddol a'r cynnydd da yr ydym wedi ei weld mewn llawer o feysydd, mae yna waith o hyd sydd angen ei wneud i barhau i gryfhau a sefydlu'r swyddogaeth graffu yn y Cyngor er mwyn cwrdd â'r heriau presennol a'r heriau i'r dyfodol a chyrraedd ein huchelgais o gael ein gweld ymhlith y cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion i wella ar y meysydd cysylltiedig canlynol:

Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Trosolwg a Chraffu: Addas ar gyfer y Dyfodol?

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad tua diwedd 2017 yn archwilio gyda phob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' oedd eu swyddogaethau craffu. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys ystyried gofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut y mae Cynghorau yn dechrau gwneud gwaith craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn edrych ar ba mor barod oedd Cynghorau ar gyfer ymateb i heriau megis pwysau cynyddol ar arian cyhoeddus a'r symudiad posibl tuag at fwy o weithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

Cyhoeddir yr adroddiad terfynol cyn bo hir a gallwn ddisgwyl gweld y gofynnir i'r Cyngor gryfhau a gwella mewn nifer o feysydd er mwyn darparu swyddogaeth graffu 'addas ar gyfer y dyfodol'. Mae hyn yn debyg o gynnwys mesurau i sicrhau bod Aelodau wedi eu hyfforddi'n ddigonol ar faterion allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, cryfhau meddiant y Pwyllgor o raglennu gwaith, parhau i adeiladu'r berthynas rhwng y Pwyllgorau a'r Cabinet, a sefydlu mecanweithiau effeithiol i'w gwneud yn bosibl asesu effaith y gwaith craffu.

Datblygu Gweledigaeth ar gyfer y swyddogaeth Graffu yn Y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Rebecca David-Knight, ymgynghorydd allanol sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ei gwaith diweddaraf yw cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor gan egluro swyddogaeth ddiffiniedig craffu, y gwerthoedd sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'n cael ei weithredu a dealltwriaeth gyffredin o'r swyddogaeth bwysig y mae disgwyl i graffu ei chwarae mewn cwrdd â heriau corfforaethol. Disgwylir y bydd hyn yn creu fframwaith llywodraethu penodol i'r cyd-destun ar gyfer craffu y gellir mesur perfformiad ac ymarfer yn ei erbyn ac felly gefnogi darnau eraill o waith sydd wedi eu bwriadu i wella'r ffordd yr ydym yn gwerthuso'r effaith y mae craffu yn ei chael a'r gwerth y mae'n ei ychwanegu. Caiff y darn hwn o waith ei gwblhau yn fuan.

Adolygu a Gwerthuso strwythur y Pwyllgorau Craffu newydd yn dilyn cyfnod y peilot

Yn 2018 gofynnir i'r Cyngor adolygu'r strwythur craffu newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2016 ac ystyried effeithiolrwydd y model newydd yng ngoleuni heriau cyfredol a heriau yn y dyfodol. Yn amlwg, bydd angen alinio'r adolygiad hwn â gwaith a chanfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a Ms David-Knight hefyd fel y cyfeiriwyd uchod ac ymgorffori argymhellion allweddol o'r darnau hyn o waith fel bo'n briodol.

8. Cymryd rhan

Mae ymgysylltiad dinasyddion yn elfen hanfodol o graffu effeithiol gan ei fod yn ei gwneud yn bosibl i 'lais' y bobl a'r cymunedau lleol gael ei glywed fel rhan o'r prosesau penderfynu a llunio polisïau.

Mae yna nifer o ffyrdd y gall pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Sir gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgorau. Mae rhaglenni gwaith y dyfodol ar gael ar dudalennau Trosolwg a Chraffu gwefan y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru yn dilyn pob rownd o gyfarfodydd y Pwyllgorau fel bod aelodau o'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth ynghylch yr eitemau fydd ar yr agendâu dros flwyddyn y Cyngor, a gall trigolion ddwyn eu barn ar unrhyw destun dan ystyriaeth i sylw'r Pwyllgor.

Mae ffurflenni ar gael ar y wefan i alluogi pobl i gyflwyno eu sylwadau ar unrhyw fater y trefnwyd eisoes iddo gael ei ystyried gan Bwyllgor, neu i awgrymu pynciau i gael eu hystyried gan Bwyllgor. Mae protocol ar gyfer siarad gerbron Pwyllgor hefyd ar gael i'r rheiny a wahoddir i fod yn bresennol i gyflwyno'u sylwadau.

Yn ystod 2017-18, gwnaed dau gyflwyniad ar bynciau i'w hystyried a chawsant eu derbyn; y naill i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ysgolion a Dysgu ynglŷn â myfyrwyr yn cael mynediad cynnar i arholiadau, a'r llall i'r Pwyllgor ar Bolisi a Chyn-penderfynu ynghylch ffioedd a thaliadau'r Cyngor.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r swyddogaeth graffu wedi bod yn rhagweithiol yn hybu ei gwaith drwy ddefnyddio Twitter, Facebook ac erthyglau yn y wasg leol. Yn 2018-19 byddwn yn ceisio codi proffil craffu ymhellach drwy ddefnyddio mwy ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda'r nod o annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses graffu.

Cysylltwch â'r tîm Partneriaeth a Chraffu os oes arnoch eisiau cael gwybod mwy.

9. Cysylltwch â ni

Scrutiny@Sir Benfro.gov.uk

Nick Evans
Rheolwr Cefnogaeth Partneriaeth a Chraffu
01437 775858
nicholas.evans@Sir Benfro.gov.uk

Claire George
Cydlynydd Cefnogaeth Partneriaeth a Chraffu
01437 776170
claire.george@Sir Benfro.gov.uk

Lynne Richards
Cydlynydd Cefnogaeth Partneriaeth a Chraffu
01437 776252
lynne.richards@Sir Benfro.gov.uk